



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
Older People's Commissioner for Wales

# Canllaw Busnes Oed-Gyfeillgar



**Heneiddio'n Dda**

Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio

**Ageing Well**

Making Wales the best place in the world to grow older

## Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod rhywun yn gweithredu yn ei gylch. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau cyfreithiol i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn ynddo.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670  
E-bost: [heneiddiondda@olderpeoplewales.com](mailto:heneiddiondda@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com/wl](http://www.olderpeoplewales.com/wl)  
Twitter: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

## Diolchiadau

Ni fyddai'r canllaw hwn wedi cael ei gynhyrchu oni bai am waith ysbrydoledig sefydliadau yn cynnwys Age-Friendly British Columbia, Age-Friendly Ireland, Age-Friendly NYC, y Gymdeithas Alzheimer, a'r Ffederasiwn Rhyngwladol ar Heneiddio.

Hoffem ddiolch i bob un o'r sefydliadau yma am eu caredigrwydd wrth ganiatáu i ni atgynhyrchu eu gwaith yn y canllaw hwn.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adran **Darllen rhagor**.

## Cyflwyniad

Mae heneiddio'n dda - sef 'ychwanegu bywyd at flynyddoedd, nid dim ond blynyddoedd at fywyd yn unig' - yn bwysig i bob un ohonom. Mae'n rhywbeth y dylai pawb yng Nghymru allu ei wneud. Dylai pobl hŷn gael eu hystyried yn rhan hollbwysig o'n cymdeithas a chael cyfle i gymryd rhan a chyfrannu at ein cymunedau a'r economi, ond wrth fynd yn hŷn mae llawer ohonynt yn gweld nad ydynt yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru eisiau i Gymru fod yn wlad o gymunedau sydd o blaid pobl hŷn ac sy'n rhoi cymorth i bobl heneiddio'n dda a gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Mewn cymunedau sydd yn oed-gyfeillgar, dylai pobl hŷn deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael eu cynnwys ac yn cael eu parchu, a'u bod yn gallu:

- Mynd a dod
- Gwneud y pethau maent eisiau eu gwneud
- Byw bywydau iach a gweithgar
- Bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf
- Dweud eu dweud

Mae busnesau - yn archfarchnadoedd, yn gaffis, yn fferyllfeydd, yn swyddfeydd post, yn siopau trin gwallt, yn siopau cornel neu'n gwmnïau teithio- yn gwneud cyfraniad hollbwysig at fywyd y gymuned, a chrëwyd y canllaw hwn i roi awgrymiadau a chynghorion i sicrhau bod eich busnes chi yn oed-gyfeillgar.

Mae bod yn oed-gyfeillgar o fudd i'ch holl gwsmeriaid, nid dim ond y bobl hŷn eu hunain, a gall helpu i wneud eich busnes yn fwy llwyddiannus.

**I gael mwy o wybodaeth am gymunedau sy'n oed-gyfeillgar, ewch i: [www.olderpeoplewales.com/wl/ageing-well/afcs](http://www.olderpeoplewales.com/wl/ageing-well/afcs)**

## **Mae bod yn oed-gyfeillgar yn dda i'ch busnes**

Mae 830,000 o bobl 60 oed a hŷn yng Nghymru, sef dros draean o'r boblogaeth. Mae disgwyl i hyn gynyddu i dros filiwn o bobl erbyn 2030.

Nid yw pobl yn rhoi'r gorau i siopa a gwario wrth iddynt fynd yn hŷn. Mewn gwirionedd, mae pobl hŷn yn farchnad gynyddol bwysig, yn arbennig yn achos busnesau lleol.

Mae pobl hŷn yn cyfrannu dros £2 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn, bron i £6 miliwn bob dydd. Mae pobl dros 65 oed yn gyfrifol am oddeutu £1 o bob £5 sy'n cael ei wario yn y DU, ac mae'r ffigur hwnnw yn codi'n gyflym.

Wrth i bŵer gwario pobl hŷn gynyddu, y busnesau hynny sy'n gofalu am eu hanghenion a'u dyheadau nhw fydd yn y sefyllfa orau i lwyddo.

**Mae dod yn oed-gyfeillgar yn dda i bobl hŷn, ac yn dda i'ch busnes chi hefyd.**

## **Nid yw bod yn oed-gyfeillgar yn gorfod costio llawer**

Nid yw dod yn fwy oed-gyfeillgar yn golygu gorfod gwneud newidiadau drud.

Nid yw sicrhau bod eich busnes yn lle cyfeillgar, parchus a chroesawgar i bawb o bob oed yn costio dim ac mae'n wasanaeth busnes gwych. Yn aml, gellir gwneud y newidiadau sydd bwysicaf i bobl hŷn am y nesa peth i ddim, neu ddim cost o gwbl.

Mae busnes oed-gyfeillgar yn fusnes pobl gyfeillgar. Drwy ddefnyddio cyfleusterau sy'n fwy oed-gyfeillgar, byddwch yn sicrhau bod eich busnes yn fwy croesawgar i nifer o bobl, yn cynnwys merched beichiog, rhieni â phlant, pobl anabl neu bobl â nam ar eu synhwyrau, a phobl sydd â chyflyrau iechyd corfforol neu iechyd meddwl. Mae hynny'n llawer iawn o gwsmeriaid posibl!

**Mae busnes oed-gyfeillgar yn fusnes pobl gyfeillgar.**

# Y Cerdyn Heneiddio'n Dda

Mae'r Cerdyn Heneiddio'n Dda yn fenter sy'n cael ei rhedeg gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i helpu busnesau i fod yn fwy oed-gyfeillgar.

Gall pobl hŷn ddefnyddio'r cerdyn i adael i chi a'ch staff wybod eu bod eisiau ychydig o gymorth neu gefnogaeth. Mae'r cardiau'n helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol, mynd a dod a pharhau i gymryd rhan yn eu cymunedau.

Mae'r cardiau'n cynnwys negeseuon syml ac maent mewn waled arbennig sy'n hawdd i'w hadnabod.



<b>Byddwch yn amyneddgar</b> Mae gennyf nam ar fy ngolwg	<b>Oes gennych chi seddi i gwsmeriaid?</b> Mae angen i mi orffwysu	<b>A wnech chi siarad yn araf a throi i fy wynebu wrth siarad</b> Rwy'n drwm fy nghlyw	<b>Byddwch yn amyneddgar</b> Mae dementia arnai	<b>Byddwch yn amyneddgar</b> Rwy'n ei chael yn anodd siarad
---	---	---	--	--



<b>Ydych chi'n mynd i...</b>	<b>Gymer, a wnech chi roi gwybodi mi pangrheuddio'n dda...</b>	<b>Rhowch eich neges yma</b>	<b>A wnech chi ddangos i mi ble mae'r tŷ bach agosaf?</b>	<b>A wnech chi aros i mi ddod o hyd i fy sedd cyn symud i ffwrdd</b>	<b>Byddwch yn amyneddgar</b> Rwy'n ei chael yn anodd cyflwyno weithiau
------------------------------	--	------------------------------	---	--	---

Rydyn ni'n gweithio gyda busnesau a sefydliadau ledled Cymru i wneud yn siŵr bod y cynllun yn cael ei gydnabod yn eang. Mae dros 15,000 o Gardiau Heneiddio'n Dda eisoes wedi cael eu dosbarthu, gan wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl hŷn.



Mae cefnogi'r Cerdyn Heneiddio'n Dda yn ffordd wych o wneud eich busnes yn fwy oed-gyfeillgar ac mae cymryd rhan yn hawdd. Y cwbl y mae angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni y byddwch chi a'ch staff yn adnabod y cardiau ac yn cynnig cymorth i unrhyw gwsmer fydd yn eu defnyddio.

Bydd busnesau fydd yn cymryd rhan yn derbyn deunyddiau hyrwyddo i roi gwybod i gwsmeriaid bod y cardiau'n cael eu hadnabod, gan gynnwys sticeri ffenestr, posteri a thafenni. Byddwch hefyd yn derbyn cyflenwad o Gardiau Heneiddio'n Dda y gallwch eu rhoi i'ch cwsmeriaid hŷn a byddwch yn derbyn diweddariadau gennym ni ynglŷn â mentrau ac ymgyrchoedd y byddwn yn eu rhedeg yn y dyfodol i gefnogi busnesau oed-gyfeillgar yng Nghymru.

Nid yw'n costio dim i gymryd rhan. Y cwbl y byddwn yn ei ofyn fydd i adwerthwyr sy'n cymryd rhan lenwi arolwg byr unwaith y flwyddyn i'n helpu ni i ddeall sut gallwn wella'r cynllun i symud ymlaen.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i**  
**[www.olderpeoplewales.com/wl/ageing-well/ageingwellcard](http://www.olderpeoplewales.com/wl/ageing-well/ageingwellcard)**



## Siaradwch â phobl hŷn

Gall swnio'n amlwg, ond y ffordd hawsaf i gychwyn gwneud eich busnes yn fwy oed-gyfeillgar yw siarad â chwsmeriaid hŷn am yr hyn maen nhw'n ei hoffi am eich busnes a beth ellir ei wneud i wella.

Mae llawer o grwpiau a fforymau gwahanol i bobl hŷn ledled Cymru a fyddai â diddordeb i'ch helpu i adnabod sut y gallwch chi fod yn fwy oed-gyfeillgar. Os ydych angen cymorth i ddod o hyd grwpiau addas yn eich ardal chi, cysylltwch a byddwn yn fwy na bodlon helpu.

Mae'n hollbwysig eich bod yn gwrando ar bobl hŷn hefyd, ac nid dim ond siarad â nhw.

Trafodwch pa newidiadau gallwch eu gwneud er mwyn ymateb i'w syniadau, a thrafodwch bosibiliadau eraill yn achos newidiadau na ellir eu cyflawni. Mae pobl yn deall na ellir newid popeth. Trwy gydweithio, yn aml fe allwch ddod o hyd i ffyrdd syml ac ymarferol o wella'ch busnes sydd ddim yn golygu gwneud newidiadau difrifol a drud.

**Mae cynnwys pobl hŷn yn rhan ganolog o fod yn oed-gyfeillgar.**

## Cynnwys eich staff

Gofynnwch i bob aelod o staff ystyried anghenion pobl hŷn. Er ei bod yn wir bod angen ychydig o gymorth ychwanegol ar rai pobl hŷn, peidiwch â stereoteipio neu wneud tybiaethau ynglŷn â'ch cwsmeriaid ar sail eu hoedran.

Rhowch groeso i gwsmeriaid wrth iddynt ddod i mewn i'ch busnes, a gofynnwch a oes angen cymorth arnynt. Peidiwch â disgwyl iddyn nhw ofyn am gymorth, gall hynny wneud i rai pobl deimlo'n anesmwyth. Cymerwch ran yn y cynllun Cerdyn Heneiddio'n Dda, sy'n helpu eich staff i adnabod cwsmeriaid hŷn sydd efallai angen cymorth ychwanegol.

Hyfforddwch staff i fod yn barchus ac yn amyneddgar, a siarad yn glir pan fyddant yn delio â phobl hŷn, p'un a bod hynny wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Peidiwch â bychanu pobl hŷn na bod yn nawddoglyd wrth siarad â nhw. Mae pobl hŷn yr un mor amrywiol â'ch cwsmeriaid eraill - cofiwch wasanaethu'r person, nid yr oedran!

Penodwch aelod o'r staff i fod yn hyrwyddwr oed-gyfeillgar, a fydd yn gyfrifol am weithio gyda phobl hŷn er mwyn helpu i wneud eich busnes yn fwy oed-gyfeillgar.

Rhowch gopiâu o'r canllaw hwn i'ch staff, a thynnwch eu sylw at ambell un o'r canllawiau defnyddiol eraill a restrir yn yr adran

**Darllen rhagor.**

**Bydd gwneud y newidiadau hyn yn gwella safon eich gwasanaeth i bobl hŷn, ac i'ch holl gwsmeriaid.**

## Meddyliwch am olau, gofod a sŵn

Sicrhewch fod eich eiddo wedi eu goleuo'n dda, yn arbennig grisiau a mannau eraill all beri anhawster.

Os oes gennych doiled cwsmeriaid, a oes arwyddion clir ar gael, a yw'n cael ei lanhau'n rheolaidd ac a oes ynddo gyfleusterau hawdd eu defnyddio (megis tapiau a handlenni fflysio)?

Sicrhewch fod eich cynhyrchion mwyaf poblogaidd yn hawdd eu cyrraedd, neu cynigiwch gymorth i'w cyrraedd. Meddyliwch am leoliad cynhyrchion trymach, yn ogystal â chynhyrchion byddai'n rhaid i bobl blygu, penlinio neu ymestyn atynt er mwyn eu cyrraedd. Gallai hyn fod yn anodd i rai pobl.

Byddwch yn ymwybodol o beryglon baglu, y tu mewn a thu allan i'ch busnes. Sicrhewch fod palmentydd a mannau y tu allan i'ch busnes yn glir. Gall byrddau-A a deunyddiau hysbysebu ar lwybrau cerdded a phalmentydd gyfyngu ar fynediad, ac yn aml nid yw pobl hŷn yn hoff ohonynt.

Meddyliwch am lefelau sŵn. Gall cerddoriaeth uchel wneud i siopa fod yn anodd i bobl sydd â nam ar y clyw.

**Mae gwneud i'ch busnes yn fwy croesawgar a hygyrch yn ei gwneud hi'n haws i bobl hŷn fod yn gwsmeriaid i chi.**

## Cymerwch sedd

A oes gennych rywle i bobl hŷn eistedd a chael seibiant, neu rywle iddynt roi eu nwyddau siopa i lawr?

Mae busnesau mewn nifer fawr o drefi a dinasoedd ledled y DU wedi cael eu hysbrydoli gan Efrog Newydd a Manceinion trwy gefnogi ymgyrchoedd 'cymerwch sedd', sy'n cynnig sedd a chroeso cyfeillgar i unrhyw un sydd angen hynny.

Gall rhywbeth mor syml â chadair sy'n galluogi rhywun i gael seibiant wneud gwahaniaeth mawr. Mae'n rhoi hyder i bobl gael mynd a dod a'i gwneud hi'n haws iddynt ddefnyddio busnesau lleol.

**Os oes gennych le, ystyriwch osod cadair i gwsmeriaid hŷn gael cymryd seibiant.**

## Adegau tawel i gwsmeriaid

Mae rhai archfarchnadoedd a siopau eraill wedi cychwyn cyflwyno 'oriau tawel' rheolaidd bob wythnos, pan fo pob cerddoriaeth a theledu yn cael ei ddiffodd.

Mae lleihau nifer yr ymyriadau wedi bod yn boblogaidd iawn ymysg ystod eang o gwsmeriaid, yn cynnwys pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl, pobl sy'n byw â dementia neu awtistiaeth, rhieni â phlant ifanc, yn ogystal â phobl hŷn.

Ystyriwch dreialu 'awr dawel' reolaidd yn eich busnes chi. Siaradwch â chwsmeriaid i weld a yw hyn yn rhywbeth allai fod o ddiddordeb iddyn nhw, ac ar ba adegau fyddai hynny'n fwyaf defnyddiol.

**Gall adegau tawel rheolaidd sydd wedi eu hysbysebu'n dda pan fydd llai o bethau'n ymyrryd ar gwsmeriaid fod yn boblogaidd i nifer o ddarpar gwsmeriaid, nid yn unig i bobl hŷn.**

## Rhowch eich hun yn eu hesgidiau nhw

Meddyliwch pa mor hawdd fyddai defnyddio eich busnes petaech yn unigolyn hŷn.

Yn benodol, edrychwch ar eich adeilad ac ystyried sut brofiad fyddai bod â phroblemau symudedd a bod angen i chi ddefnyddio cadair olwyn, ffon gerdded neu bulpud.

Pa mor groesawgar fyddai eich busnes petai gennych nam ar y golwg neu'r clyw, neu petaech angen rhywle i gael seibiant?

Allwch chi ddod o hyd i'r hyn yr ydych ei eisiau yn hawdd?

A yw'r staff yn cynnig cymorth mewn modd cwrtais a pharchus?

**Dychmygwch eich bod chi'n unigolyn hŷn. Pa mor gyfeillgar fyddai eich busnes?**

## Gwnewch wybodaeth yn hawdd ei deall a'i defnyddio

Mae sicrhau bod gwybodaeth bwysig a defnyddiol ar gael yn rhwydd yn rhan allweddol o wneud eich busnes yn un oed-gyfeillgar.

A yw'r arwyddion a'r prisiau yn hawdd eu darllen, ac a ddefnyddir ffontiau mawr a chefnidiroedd cyferbyniol? Mae'r RNIB yn cynnig argymhellion rhagorol ynglŷn â sicrhau bod gwybodaeth sydd wedi cael ei hargraffu yn hawdd ei darllen, ac mae hynny ar gael yn adran **Darllen rhagor** y canllaw hwn.

Cofiwch nad yw pob person hŷn ar-lein. Gwnewch yn siŵr bod cwsmeriaid yn gallu cysylltu â chi dros y ffôn, yn ogystal ag yn electronig. Sicrhewch eich bod yn arddangos gwybodaeth ddefnyddiol am eich busnes yn eglur, a bod copïau ar gael i bobl fynd â nhw adref os bydd angen.

Nid yw bod yn oed-gyfeillgar yn golygu gallu darparu pob cyfleuster y byddai ei angen ar unigolyn hŷn yn eich busnes. Sicrhewch fod y staff yn gallu helpu cwsmeriaid hŷn gydag ymholiadau a gwybodaeth ddefnyddiol, yn cynnwys:

- Cyfarwyddiadau i'r toiled hygyrch neu'r toiled anabl agosaf
- Cynnig ffonio am dacsï gan ddefnyddio cwmni lleol dibynadwy
- Lleoliad safleoedd bws a gorsafoedd trenau cyfagos
- Ble mae'r cyfleusterau parcio cyfagos (llefydd parcio anabl yn arbennig)

Os ydych yn gweithio ar fod yn fwy oed-gyfeillgar, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'ch cwsmeriaid. Gosodwch arwydd neu hysbysiad yn dweud wrthynt eich bod yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau a'u hawgrymiadau. Hysbyseb wch unrhyw wasanaethau defnyddiol i gwsmeriaid hŷn, megis anfon nwyddau

i'r cartref. Os ydych yn cefnogi'r cynllun Cerdyn Heneiddio'n Dda, gwnewch yn siŵr eich bod yn arddangos y sticeri'n glir yn eich ffenestr.


**Nid yw pob person hŷn ar-lein. Gwnewch yn siŵr bod cwsmeriaid yn gallu cysylltu â chi drwy ffyrdd eraill hefyd.**

## **Dod yn fusnes dementia gyfeillgar**

Mae dros 45,000 o bobl yng Nghymru wedi cael diagnosis o ddementia. Nid oes raid i ddiagnosis o ddementia olygu bod rhaid i chi roi'r gorau i'r hyn oeddech yn arfer ei wneud, gan gynnwys defnyddio busnesau lleol.

Mae Cymdeithas Alzheimer yn cynnig amrywiaeth o ganllawiau ymarferol ar fod yn fusnes dementia gyfeillgar, ac mae rhai yn cael eu rhestru yn adran **Darllen rhagor** y canllaw hwn. Maen nhw hefyd yn cynnig sesiynau ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia am ddim. Mae'r rhain yn para am awr yn unig, ac maent yn ffordd ymarferol o gael eich staff i feddwl am fod yn fwy oed-gyfeillgar.

Gallwch wneud cais i Gymdeithas Alzheimer gydnabod eich ymdrechion i wneud eich busnes yn fwy dementia gyfeillgar, ac yna gallwch hysbysebu hynny ymysg cwsmeriaid.



# **Ffrindiau Dementia**

Menter gan Gymdeithas Alzheimer

**Mae gweithio tuag at fod yn fwy dementia gyfeillgar yn ffordd wych i'ch busnes fod yn fwy oed gyfeillgar.**



## Byddwch yn gyflogwr oed-gyfeillgar

Er bod ffocws y canllaw hwn ar ddarparu profiad oed-gyfeillgar i gwsmeriaid, mae'n bwysig meddwl hefyd am sut gallwch fod yn gyflogwr oed-gyfeillgar.

Beth yw ystod oed eich cyflogeion? Ydych chi'n croesawu ac yn hybu ceisiadau gan bobl hŷn ar gyfer swyddi gwag?

Ydych chi'n cynnig oriau gweithio hyblyg i bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu? Mae llawer o bobl hŷn yn ofalwyr, yn gofalu am berthnasau oedrannus, plant ac wyrion.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar sut i fod yn gyflogwr oed-gyfeillgar yn yr adran **Darllen rhagor**.

**Nid ar gyfer eich cwsmeriaid yn unig mae bod yn oed-gyfeillgar, ond hefyd ar gyfer eich cyflogeion.**

## Beth nesaf?

Mae creu cymunedau oed-gyfeillgar yn golygu bod angen i nifer o wahanol bobl, grwpiau a sefydliadau gymryd rhan, nid dim ond busnesau.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gweithio gyda chynghorau tref, cymuned a chynghorau sir ledled Cymru i'w cefnogi i fod yn fwy oed-gyfeillgar. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i ofyn iddyn nhw beth maen nhw'n ei wneud i gefnogi cymunedau oed-gyfeillgar a dywedwch wrthyn nhw eich bod chi'n gweithio tuag at wneud eich busnes chi'n fwy oed-gyfeillgar.

Rhannwch eich profiadau, syniadau ac ymdrechion i fod yn fwy oed-gyfeillgar â phobl eraill, a'u hannog i gymryd rhan.

Rhowch wybod i fusnesau lleol eraill am y cynllun Cerdyn Heneiddio'n Dda, a sut y gallan nhw ei gefnogi.

Os yw eich busnes chi mewn ardal sy'n gweithio tuag at fod yn Gymuned mwy Dementia gyfeillgar, cysylltwch â'r grŵp llywio lleol a chael gwybod sut gallwch chi gymryd rhan.

**Trwy gydweithio, gallwn wneud Cymru y lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn.**

# Rhestr wirio gyflym busnes oed-gyfeillgar

## Staff

- Adnabod y cynllun Cerdyn Heneiddio'n Dda, a chynnig cymorth i gwsmeriaid hŷn sydd ei angen
- Hyrwyddo a dosbarthu'r Cerdyn Heneiddio'n Dda i gwsmeriaid hŷn
- Ymddwyn yn barchus ac yn amyneddgar gyda chwsmeriaid hŷn
- Gofyn i gwsmeriaid hŷn am eu safbwyntiau ynglŷn â sut gallech fod yn fwy oed-gyfeillgar
- Siarad yn eglur â chwsmeriaid hŷn, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb
- Mae'r staff yn Gyfeillion Dementia
- Mae gan eich busnes Hyrwyddwr Oed-Gyfeillgar
- Croesawu cwsmeriaid pan maent yn dod i mewn i'ch busnes, a chynnig cefnogaeth iddynt os oes angen.
- Cynnig help i gyrraedd eitemau anodd eu cyrraedd

## Recriwtio

- Mae'r staff yn cynnwys amrywiaeth o oedrannau
- Mae ceisiadau gan bobl hŷn yn cael eu croesawu ar gyfer swyddi gwag
- Rhoddir cymorth i staff sydd â chyfrifoldebau gofalu

## Yr Amgylchedd

- Mae eich busnes wedi'i oleuo'n dda, yn arbennig lle mae grisiau
- Mae arwyddion clir ar gyfer toiledau cwsmeriaid, ac maent yn cael eu glanhau'n rheolaidd
- Nid oes peryglon baglu ar lwybrau cerdded, ac maent yn ddigon llydan ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symudedd
- Mae palmentydd a llwybrau cerdded y tu allan i'ch siop yn cael eu cadw'n glir ac nid oes peryglon baglu arnynt
- Cedwir cerddoriaeth a sŵn ar y lefel isaf posibl
- Rydych yn cynnal 'oriau tawel' i siopwyr
- Mae'r arwyddion a'r prisiau yn eglur ac yn hawdd eu darllen

## Gwybodaeth

- Rydych yn hysbysebu eich diddordeb mewn bod yn oedgyfeillgar, ac yn gofyn am awgrymiadau gan gwsmeriaid
- Os ydych yn adnabod y Cerdyn Heneiddio'n Dda, mae'r sticer ffenestr wedi cael ei arddangos yn amlwg
- Mae oriau agor a manylion cyswllt i'w gweld yn glir
- Gall cwsmeriaid gysylltu â chi wyneb yn wyneb a thros y ffôn, yn ogystal ag ar-lein
- Mae gwybodaeth bwysig am eich busnes ar gael mewn fformatau wedi'u hargraffu, hawdd eu darllen
- Cynnig helpu pobl hŷn ag ymholiadau ynglŷn â gwasanaethau a chyfleusterau lleol

## **Dolenni defnyddiol**

**Busnes oed-gyfeillgar**

**[Gwybodaeth am gymunedau sy'n oed-gyfeillgar](#)**

**[Sut i gefnogi menter Cerdyn Heneiddio'n Dda](#)**

**[Age-friendly business, Age UK](#) [PDF]**

**[Age-Friendly Business Recognition Scheme, Age Friendly Ireland](#)**

**[Age-Friendly Business Guide, Age Friendly NYC](#)** [PDF]

**[Creating an age-friendly business in B.C., Age-Friendly British Columbia](#)** [PDF]

**[Age-Friendly Belfast Charter: Information for organisations, Age-Friendly Belfast](#)** [PDF]

**[Business Toolkit, Age-Friendly Bristol](#)**

**Gwnewch wybodaeth yn hawdd ei deall a'i defnyddio**

**[Canllawiau Print Clir, RNIB a'r Ymddiriedolaeth Synhwyraidd](#)** [PDF]

## Cyflogwyr oed-gyfeillgar

[Nid oes gan unrhyw un ddyddiad 'ar ei orau cyn': Canllawiau i gyflogwyr ar gyflogi a hyfforddi gweithwyr hŷn](#)

[Becoming an age-friendly employer, Centre for Ageing Better \[PDF\]](#)

## Busnesau sy'n Deall Dementia

[Cyfeillion Dementia](#)

[Dementia-friendly business guide, Alzheimer's Society](#)

[How to help people with dementia: A guide for customer-facing staff, Alzheimer's Society \[PDF\]](#)

[Dementia-friendly retail guide, Alzheimer's Society](#)

Roedd pob doler yn gywir ym mis Ionawr 2020